**Fforwm Iaith Strategol Siroedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot**
**Cynllun gweithredu ar gyfer cyrraedd Strategaeth y Gymraeg 2050.**

| | |
|---|---|
| Yn adrodd i: | Llywodraeth Cymru |
| Yn cwrdd: | 4 gwaith y flwyddyn |
| Gwerthuso: | Bydd angen gwerthuso'r Cylch Gorchwyl erbyn Medi 2018 |
| Cyfarfod cyntaf: | Medi 21$^{ain}$ 2017 |

**Aelodaeth o dan ystyriaeth**
Menter Iaith Abertawe
Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cymraeg i Blant
Mudiad Meithrin
Urdd Gobaith Cymru
Ysgol Gyfun Ystalyfera
Ysgol Gyfun Bryntawe
Ysgol Gyfun Gŵyr
ERW
Coleg Gŵyr
Grŵp Colegau NPTC
Prifysgol Abertawe
Coleg Cenedlaethol Cymru
Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant
Academi Hywel Teifi
Tŷ Tawe
Tŷ'r Gwrhyd
Clybiau Gwawr
Merched y Wawr
Llywodraeth Cymru
Bwrdd Iechyd PABM / ABMU
Heddlu De Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
RHAG
Partneriaeth Bae'r Gorllewin
Dysgu Bae Abertawe
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Dyfodol yr Iaith
Swyddog Busnes y Mentrau
Ysgolion ail iaith

DRAFFT

**Nod**

Bydd y Fforwm Iaith yn fan canolog i gyd-gynllunio ar lefel strategol a rhannu gwybodaeth a gweithio mewn partneriaeth ar weithgareddau, prosiectau a chyfleoedd gan grwpiau aelodaeth y fforwm. Wrth gydweithio, byddwn yn osgoi dyblygu ac yn cyd gynllunio er mwyn cyrraedd y nod, gan rannu arfer dda a chefnogi gwaith ein gilydd er mwyn atgyfnerthu'r Gymraeg o fewn cymunedau Siroedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

**Cylch gorchwyl**

Cyfrifoldeb am ddatblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer datblygu a chynnal gweithgareddau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg fel a ganlyn:

- Cynllunio a gweithredu polisi a gweithdrefn cydweithio sirol, traws ffiniol a rhanbarthol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg;

- Partneriaid unigol i adrodd yn ôl i'w grwpiau/pwyllgorau lleol am yr hyn sydd yn cael ei drafod yn y cyfarfodydd;

- Hysbysu partneriaid ac awdurdodau cyllido am faterion sydd yn codi o'r cyfarfodydd;

- Cydweithio gyda sefydliadau ac adrannau er mwyn normaleiddio a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg.

**Cyfarfodydd ac aelodaeth**

Bydd y Fforwm Iaith yn cwrdd pedair gwaith y flwyddyn.

Bydd y cyfarfodydd yma'n cael eu cydlynu gan Fentrau Iaith Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Bydd croeso i unrhyw aelod wahodd y Fforwm i gwrdd yn eu lleoliadau hwy er mwyn rhoi cyfle i bawb ymweld â'r sefydliadau sydd yn cynnig darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd y Fforwm yn estyn gwahoddiad i sefydliadau o fewn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, sydd yn darparu gwasanaeth Cymraeg, sydd â diddordeb datblygu cyfleoedd Cymraeg neu sydd â dyletswyddau i ddarparu'r cyfleoedd yma, i ymuno â'r Fforwm.

DRAFT

Bydd rhestr gyfredol o aelodau'r Fforwm i'w gweld ar adran Fforwm Iaith ar wefannau Menter Iaith Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Anogir aelodau'r Fforwm i gynnwys dolen i'r dudalen hon o'u gwefannau hwy yn ogystal.

Bydd cynnwys agendâu'r cyfarfodydd yn hyblyg ac yn rhoi cyfle:

- i rannu arferion da;
- i weithio ar y cyd gyda phrosiectau lleol;
- i ymateb i faterion lleol ynghylch yr iaith Gymraeg gan aelodaeth y grŵp a'r cyhoedd ar y cyd;
- i gyfrannu'n adeiladol i strategaethau a pholisïau a fydd yn darparu cefnogaeth ac yn hybu defnydd o'r iaith Gymraeg bob dydd yng nghymunedau Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ac yn genedlaethol.

Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl hwn gan aelodau'r cyfarfod cyntaf ar ___________

DRAFFT